Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# 2025 – 26

## Derbynwyr y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid drwy ei Grant Ymgysylltu â Democratiaeth i'r sefydliadau hyn i gyflwyno prosiectau yng Nghymru sy'n helpu dinasyddion i ymgysylltu â democratiaeth.

**Os hoffech wybod mwy, cysylltwch ag: etholiadau.elections@llyw.cymru**

# Sefydliadau sydd wedi cael cyllid

## Cyngor Cymuned Aberporth

- Blwyddyn
- £5,000
- Lleol
- Pobl ifanc y tu allan i'r ysgol

Bydd y prosiect hwn yn grymuso pobl ifanc yn Aberporth a Pharc-llyn i gyd-ddylunio elfennau o faes chwarae cymunedol Parc-llyn sydd newydd ei gaffael, gan ddefnyddio gweithdai a sesiynau ymgysylltu i ddysgu am ddemocratiaeth leol a chyfrannu at wneud penderfyniadau go iawn. Drwy weithio mewn partneriaeth, bydd y fenter yn creu mannau hamdden cynhwysol, dan arweiniad pobl ifanc wrth feithrin ymwybyddiaeth o ddemocratiaeth, perchnogaeth gymunedol, a chysylltiad rhwng cenedlaethau.

## Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

- 3 blynedd
- £141,707
- Cenedlaethol
- Pobl ifanc y tu allan i'r ysgol

Bydd sefydliad Clybiau Bechgyn a Merched Cymru yn ehangu ei fentrau llwyddiannus Pizza a Gwleidyddiaeth a Chodi Eich Llais i ennyn diddordeb pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o gymryd rhan mewn democratiaeth. Bydd y prosiect yn meithrin llythrennedd gwleidyddol, yn rhoi hwb i'r niferoedd sy'n cofrestru i bleidleisio, ac yn creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a deialog dan arweiniad pobl ifanc gyda chynrychiolwyr etholedig.

## Cymdeithas Byddar Prydain Cymru

- 5 mis
- £6,351
- Cenedlaethol
- Pobl fyddar

Bydd BDA Cymru yn darparu sesiynau gwybodaeth personol i sicrhau bod y Gymuned BSL Byddar yng Nghymru yn cael ei haddysgu i ddysgu a deall y newidiadau mawr i ddemocratiaeth yng Nghymru yn 2026 a sut mae hyn yn effeithio arnynt.

- Hyd y prosiect
- Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd
- Sefydliad lleol neu genedlaethol
- Pwy sy'n elwa ar y grant

# Sefydliadau sydd wedi cael cyllid – parhad

## Cyngor Caerdydd

Blwyddyn ac 8 mis

£37,233.89

Lleol

Cymuned Sipsiwn a Theithwyr

Mae Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â There and Back Again i hybu cyfranogiad democrataidd yn y gymuned. Wrth wraidd y prosiect hwn mae ymrwymiad i sicrhau bod lleisiau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr nid yn unig yn cael eu cynnwys ond yn chwarae rhan weithredol wrth lunio sgyrsiau lleol. Drwy feithrin dinasyddiaeth weithredol a chodi ymwybyddiaeth o brosesau democrataidd, nod y prosiect yw grymuso unigolion ac annog gwneud penderfyniadau cynhwysol ledled Caerdydd.

## Foothold Cymru

2 flynedd

£36,135

Lleol

Pobl ifanc yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol

Bydd Caffis Ysgogwyr Newid yn y Dyfodol yn helpu pobl ifanc 14-18 oed yn Sir Gaerfyrddin, yn enwedig y rhai hynny o gefndiroedd difreintiedig, i feithrin gwybodaeth wleidyddol a hyder drwy sesiynau wythnosol cynhwysol, dwyieithog. Nod y prosiect yw grymuso pobl ifanc i gymryd rhan mewn democratiaeth leol, creu prosiectau dinesig, a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed gan y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau.

## KIDCARE4U

Blwyddyn ac 8 mis

£28,800

Lleol

Cymunedau ethnig leiafrifol

Nod y prosiect dwy ran hwn yw codi ymwybyddiaeth o hawliau democrataidd ymhlith pobl o gymunedau ethnig amrywiol yng Nghasnewydd, gyda ffocws penodol ar fenywod a phlant sy'n wynebu rhwystrau iaith a TG. Bydd rhan gyntaf y prosiect yn helpu oedolion i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, a sut y mae prosesau democrataidd yn effeithio ar eu bywyd bob dydd, o faterion fel casglu biniau i ddyletswyddau awdurdodau lleol a'u hawl i ofyn am wasanaethau. Bydd yr ail ran yn ennyn diddordeb plant i feithrin eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth o oedran ifanc. Bydd gweithgareddau yn cael eu cyflwyno ar draws lleoliadau gwahanol yn ein sefydliad, gan sicrhau bod dysgu yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb sy'n cymryd rhan.

# Sefydliadau sydd wedi cael cyllid – parhad

## Anabledd Dysgu Cymru

- 3 blynedd
- £77,410
- Cenedlaethol
- Pobl ag Anableddau Dysgu

Bydd y prosiect hwn yn cynnal gweithgareddau gan gynnwys gweithdai, sesiynau hyfforddi a hystings i hybu dealltwriaeth a hyder llawer o bobl ag anableddau dysgu yn y gymdeithas ddemocrataidd.

## Partneriaeth Gymunedol Llanelli

- Blwyddyn
- £995
- Lleol
- Pobl ifanc a chymunedau lleiafrifoedd ethnig

Bydd Partneriaeth Gymunedol Llanelli yn gweithio dros y flwyddyn nesaf gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn Llanelli yn deall y prosesau democrataidd ac yn teimlo'n ddigon gwybodus i fod yn rhan weithredol. Byddwn yn hyrwyddo beth mae'n ei olygu i fod yn "ddinesydd gweithredol" a sut i gymryd rhan lawn yn y prosesau democrataidd hyn.

## My Society

- 2 flynedd
- £59,213
- Cenedlaethol
- Y boblogaeth gyfan

Mae mySociety eisiau gwneud ysgrifennu'r neges gywir at y cynrychiolydd cywir yn haws – gan weithio gyda chymdeithas sifil Cymru a chynrychiolwyr i wneud WriteToThem.com yn fwy defnyddiol a hygyrch.

## Purple Shoots

- 3 blynedd
- £30,000
- Cenedlaethol
- Pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is

Mae Purple Shoots yn helpu pobl o gymunedau sydd wedi'u hanghofio i ddod at ei gilydd mewn grwpiau i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu unigolion a'u cymunedau. Dros dymor y Grant Ymgysylltu â Democratiaeth, byddwn yn dechrau tri grŵp newydd ac yn gwahodd gwleidyddion lleol o'r cyngor, y Senedd a San Steffan i ymuno â'r cyfarfodydd. Rydym yn gweithredu'n genedlaethol ledled Cymru a bydd ein grwpiau newydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd, Pontypridd ac Abertawe. Byddwn hefyd yn gwella ymgysylltiad â democratiaeth ar draws ein grwpiau cymunedol presennol, sydd wedi'u lleoli yn Ne Cymru yn bennaf.

# Sefydliadau sydd wedi cael cyllid – parhad

## Scouts Cymru

2 flynedd

£23,250

Cenedlaethol

Pobl ifanc y tu allan i'r ysgol

Bydd ScoutsCymru yn rhoi'r offer, y sgiliau a'r hyder i bobl ifanc ledled Cymru gynnal hystings lleol a chymryd rhan mewn profiad hwyliog ac ymarferol sy'n efelychu Senedd Ieuenctid Cymru, gan ddod â democratiaeth yn fyw mewn ffordd gyffrous ac ystyrlon.

## Shout Out UK

2 flynedd

£72,758

Cenedlaethol

Pobl ifanc yn yr ysgol

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd Shout Out UK (SOUK) yn cyflwyno gweithdai llythrennedd mewn gwleidyddiaeth a'r cyfryngau i o leiaf 2,400 o bobl ifanc 14-18 oed yng Nghymru. Nod y gweithdai hyn, sy'n targedu cymunedau gwledig yn bennaf, yw rhoi'r sgiliau i fyfyrwyr ddeall prosesau democrataidd, nodi camwybodaeth, brwydro yn erbyn casineb ar-lein, a chynyddu eu cyfranogiad mewn etholiadau sydd i ddod, yn benodol etholiad y Senedd 2026 ac etholiadau Llywodraeth Leol 2027. Bydd holl ddeunyddiau'r prosiect ar gael yn Gymraeg i sicrhau hygyrchedd a chysondeb â'r Cwricwlwm Cymreig.

## Canolfan Datblygu De Glan yr Afon

Blwyddyn

£10,945

Lleol

Cymunedau ethnig leiafrifol

Nod ein prosiect yw cefnogi ymgysylltiad gwladolion tramor â democratiaeth yng Nghaerdydd, yn benodol y rhai hynny sy'n defnyddio'r Saesneg fel ail iaith. Byddwn yn ceisio cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r system ddemocrataidd yng Nghymru, yn y cyfnod cyn yr etholiadau nesaf. Byddwn yn gwneud hyn drwy greu deunyddiau addysgu ar gyfer oedolion sy'n dysgu Saesneg, yn ogystal â thrwy ddarparu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer gweithdai ymwybyddiaeth gyhoeddus yn y gymuned.

# Sefydliadau sydd wedi cael cyllid – parhad

## Mosg a Chanolfan Gymunedol Islamaidd Abertawe

Blwyddyn

£16,000

Lleol

Cymunedau ethnig leiafrifol

Mae Mosg a Chanolfan Gymunedol Islamaidd Abertawe yn bwriadu cyflwyno gweithdai dwyieithog, clinigau cofrestru pleidleiswyr, a sesiynau addysgol ar gyfranogiad democrataidd ar gyfer cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli. Mae'r rhain yn cynnwys preswylwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, ceiswyr lloches, ffoaduriaid a phobl ifanc 16-25 oed yn Abertawe.

## The Politics Project

3 blynedd

£357,060

Cenedlaethol

Pobl ifanc yn yr ysgol

Mae'r rhaglen Deialog Ddigidol: Cymru, sy'n cael ei chyflwyno gan The Politics Project, yn cefnogi sgyrsiau ystyrlon a gwybodus rhwng pobl ifanc a'u cynrychiolwyr etholedig. Caiff athrawon hyfforddiant ac adnoddau i baratoi eu pobl ifanc i feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd drwy sesiynau Deialog, ar-lein ac wyneb yn wyneb, wedi'u trefnu a'u hwyluso gan dîm The Politics Project.

Mae'r rhaglen yn grymuso dysgwyr ledled Cymru i ddod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus – yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Cyngor Ffoaduriaid Cymru

2 flynedd

£33,512

Cenedlaethol

Cymunedau ethnig leiafrifol

Mae prosiect Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn helpu ffoaduriaid yng Nghymru i ddod yn aelodau gwybodus, cyfrifol a gweithgar o'r gymdeithas. Drwy hyfforddiant ac ymgysylltiad dinesig, mae'r prosiect yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i ffoaduriaid lywio systemau democrataidd, cyfrannu at eu cymunedau, a chymryd rhan gadarnhaol yn y broses o wneud penderfyniadau lleol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53999
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg